



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr yr Hydref 2024

Autumn Newsletter 2024




Tymor yr Hydref 2024

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.

Autumn 2024

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it and feel free to share it with colleagues and friends.



Cynllun strategol

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun strategol drafft ar gyfer 2025-2030. Nod y cynllun hwn yw amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen y cynllun drafft **fan hyn** ac mae croeso i chi gyflwyno unrhyw sylwadau cyn i ni gyhoeddi'r cynllun terfynol y flwyddyn nesaf.

Strategic plan

We have published our draft strategic plan for 2025-2030. This plan aims to outline our priorities for the next five years. You can read the draft plan [here](#) and you are welcome to give us any comments before we publish the final plan next year.

Cynllun Strategol
Comisiynydd y Gymraeg
2025-30

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Amcan 1: Cynddydd wasanaethau sydd gael yn Gymraeg

Diaraniad u chyflwrhebu

Sut fyddwn ni'n mesur effaith ein gwaith?





Gosod safonau ar gwmnïau dŵr

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Senedd Cymru, mae Comisiynydd y Gymraeg bellach wedi cyhoeddi pa safonau y bydd angen i gwmnïau dŵr yng Nghymru gydymffurfio â nhw. Y cwmnïau dŵr a fydd yn gorfol cydymffurfio yw Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Dyma'r tro cyntaf i Gomisiynydd y Gymraeg osod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai cyhoeddus. Mae hwn felly yn gam arwyddocaol yn y broses o osod safonau ar sefydliadau. Y nod yw gweld nid yn unig cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod ehangach o sefyllfaeodd yng Nghymru, ond hefyd cynydd yn y defnydd o'r gwasanaethau yma.

Daw'r gydymffurfiaeth i rym yn Awst 2025 a gallwch ddarllen am y safonau newydd ar [**gwmnïau dŵr fan hyn**](#).

Setting standards for water companies

Following the approval of the Senedd, the Welsh Language Commissioner has now announced which standards water companies in Wales will need to comply with. The water companies that will have to comply are Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy.

This is the first time that the Welsh Language Commissioner has placed Welsh language standards on organisations that are not considered public bodies. This is therefore a significant step in the process of setting language standards. The aim is to not only see new opportunities to use the Welsh language in a wider range of situations in Wales, but also to increase the use of these services.

The legislation will come into force in August 2025 and you can read more about the [**new standards water companies need to comply with**](#).

Ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg

Bydd ymgyrch [Defnyddia Dy Gymraeg](#) yn dychwelyd eleni eto ac yn rhedeg o 25 Tachwedd - 9 Rhagfyr. Nod yr ymgyrch yw annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd mewn amryw sefyllfa oedd, yn y gwaith, gyda busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, wrth chwarae, yn yr ysgol - ac mewn unrhyw sefyllfa.

Bydd ffocws ychwanegol eleni ar y sector iechyd a gofal a bydd pecyn adnoddau ar gyfer ein partneriaid i'w ddefnyddio. Cadwch olwg am ffilmiau a phodlediad newydd yng nghwmni un o brif fandiau Cymru a chwiliwch am [#DefnyddiaDyGymraeg](#) i weld beth mae pawb yn ei wneud – a chofiwch rannu!

Defnyddia Dy Gymraeg campaign

The [Defnyddia dy Gymraeg](#) campaign will return again this year and run from 25 November - 9 December. The campaign aims to encourage people to use their Welsh every day in a variety of situations, at work, with businesses, public services, at play, at school – wherever they can.




There will be an additional focus this year on the healthcare sector and a resource pack is available for our partners to use. Look out for new films and a podcast in the company of one of Wales' leading bands and search [#DefnyddiaDyGymraeg](#) to see what everyone is up to – and remember to share!



Ymateb i'r Comisiwn

Yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn gynharach eleni cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei adroddiad ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg o dan y teitl [Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg](#).

Erbyn hyn rydym wedi paratoi ein hymateb llawn cyntaf i'r adroddiad gan ddatgan ein cefnogaeth i'r prif argymhellion ac yn annog gweithredu. Darllenwch ein hymateb i'r adroddiad [fan hyn](#).



Commission response

At the Rhondda Cynon Taf National Eisteddfod earlier this year the Commission for Welsh-speaking Communities published its report on communities with a higher density of Welsh speakers titled [Empowering Communities, Strengthening the Welsh language](#).

We have now prepared our first full response to the report stating our support for the main recommendations and urging action to be taken. You can read our response [here](#).

Dashfwrdd Data Cyfrifiad 2021

Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi Dashfwrdd Data newydd sydd yn galluogi i unrhywun i gael data manwl am ble yn union mae siaradwyr Cymraeg yn byw. Gellir hefyd gweld sut mae patrymau wedi newid dros amser, yn ogystal â darganfod rhagor am fywydau'r siaradwyr Cymraeg hynny.



Ein nod wrth ei gomisiynu oedd rhoi'r data yn eich dwylo chi a'ch cefnogi i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi ei hangen yn hawdd.

Os oes gennych chi adborth neu syniadau am gamau nesa'r prosiect hwn mae croeso i chi gysylltu.

Gallwch ei weld a phori drwyddo drwy ddilyn y ddolen [hon](#).

Canran y siaradwyr Cymraeg, fesul awdurdod lleol (2021)



Canran y siaradwyr Cymraeg, fesul ward (2021)



A new interactive data dashboard

We have recently published a new Data Dashboard which allows anyone to get detailed data about exactly where Welsh speakers live. You can also see how patterns have changed over time, as well as find out more about the lives of those Welsh speakers.

This dashboard will help to put the data in your hands and support you to easily find the information you need. I hope it will be of use and of interest and if you have feedback or ideas about the next steps of this project please do not hesitate to get in touch.

Have a browse through it by clicking this [link](#).

Galwad am weithredu ym maes gofal dementia

Action needed in dementia care

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi galw am weld mwy o weithredu ym maes gofal dementia i siaradwyr Cymraeg. Mewn papur polisi sydd wedi ei gyhoeddi gan y Comisiynydd, mae'n nodi mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi ei weld ers gwneud argymhellion mewn adroddiad ar y cyd â Chymdeithas Alzheimer's Cymru yn ôl yn 2018.

Mae rhai camau cadarnhaol wedi eu cymryd yn y blynnyddoedd diwethaf. Mae'r Comisiynydd wedi croesawu gweld y grŵp dementia a'r Gymraeg yn ail-gychwyn cyfarfod, ond mae am weld y momentwm yn cynyddu, fel y gellir gwella ar y ddarpariaeth i gleifion a theuluoedd yn y blynnyddoedd sydd i ddod.

Gallwch ddarllen mwy am yr adroddiad [fan hyn](#).

The Welsh Language Commissioner has called for more action to be taken in dementia care for Welsh speakers. In a policy paper published by the Commissioner, it notes that little progress has been made since recommendations were made in a joint report with Alzheimer's Society Wales back in 2018.

The Commissioner notes, though, that some positive steps have been taken in recent years and welcomes the reconvening of the dementia and Welsh language group. But an increase in momentum is needed, so that provision for patients and families can be improved in the coming years.

You can read more and read the report itself [here](#).





Ymweliad Taiwan

Yn dilyn derbyn gwahoddiad gan Lywodraeth Taiwan, bu dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, Osian Llywelyn yn ein cynrychioli yno yng Nghynhadledd Datblygu leithoedd 2024. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth a hyrwyddo'r gwaith rydym yn ei wneud yma yng Nghymru yng nghyd-destun y Gymraeg, ac yn gyfle i glywed a deall mwy am y gwaith yn Nhaiwan o geisio amddiffyn rhai o'u hieithoedd brodorol megis yr Hakka.

Roedd awydd cryf yno i ddysgu mwy o wersi o'r gwaith sydd yn digwydd yma yng Nghymru a chafodd Osian y cyfle i gyfrannu at drafodaeth eang gydag academyddion a chyfarwyddwyr eraill a oedd yn gweithredu ar draws ynysoedd Taiwan ac yn cynrychioli gwahanol gymunedau ieithyddol.

Taiwan visit

Following an invitation from the Taiwan Government, Deputy Welsh Language Commissioner, Osian Llywelyn, represented us at the Languages Development Conference 2024. It was an opportunity to share knowledge and promote the work we do here in the context of the Welsh language, while offering an opportunity to hear and understand more about the work carried out in Taiwan as they try to protect their native languages, such as the Hakka.



There was a strong desire to learn lessons from the work we do here in Wales. Osian had the opportunity to contribute to a wide-ranging discussion with academics and other leaders operating across the Taiwan islands and representing different linguistic communities.

Cyhoeddi polisi gorfodi diwygiedig

Mae ein polisi gorfodi yn ddogfen statudol sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y byddwn yn sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'n egluro sut y byddwn yn delio â diffyg cydymffurfiaeth a pha gamau y byddwn fwyaf tebygol o'u cymryd mewn gwahanol amgylchiadau.

O ganlyniad i'n cyhoeddiad yn gynt eleni i ymrwymo i gyd-reoleiddio gyda ffocws cryf ar hybu hunan-reoleiddio, mae angen i'n polisi gorfodi adlewyrchu y dull newydd hwn o weithio. Bydd ein polisi diwygiedig felly yn cynrychioli cam pwysig ymlaen yn ein hymdreichion i sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff y polisi drafft ei gyhoeddi o fewn yr wythnosau nesaf a'i anfon i'n rhanddeiliaid er mwyn iddynt gynnig unrhyw adborth.

Revised enforcement policy

Our enforcement policy is a statutory document that offers advice and information on how we ensure that organisations comply with Welsh language standards. It explains how we will deal with non-compliance and what actions we will most likely take in various circumstances.

As a result of our announcement earlier this year to commit to co-regulation with a strong focus on promoting self-regulation, our enforcement policy needs to reflect this new approach. Our revised policy will therefore represent an important step forward in our efforts to ensure that our regulatory activities have the greatest impact on opportunities to use Welsh.

The draft policy will be published within the next few weeks and circulated to our stakeholders who are welcome to offer feedback.



Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan comisiynyddygymraeg.cymru neu dilynwch ni ar Facebook, Instagram, LinkedIn ac X ac os am anfon neges atom y cyfeiriad ebost yw cyfathrebu@cyg-wlc.cymru



For more information about our work please visit our website: welshlanguagecommissioner.wales or follow us on Facebook, Instagram, LinkedIn and X and if you want to get in touch e-mail us on: cyfathrebu@cyg-wlc.wales



